Ymddiriedolaeth Natur Gwent

**Teitl:** Hyfforddai Adfer Natur
**Contract:** Contract tymor penodol am flwyddyn, llawn amser
**Yn adrodd i:** Rheolwr Adfer Natur
**Lleoliad:** Ledled Gwent
**Cyflog:** £24,185 pro rata

## Pwrpas cyffredinol

Fel rhan o'n Prosiect Rhwydweithiau Natur sy'n cael ei gyllido, Gwent Gydnerth ar gyfer Pobl a Bywyd Gwyllt, rydym yn recriwtio Hyfforddai Adfer Natur, llawn amser, gyda thâl, am gontract tymor penodol am flwyddyn. Bydd y Lleoliad Hyfforddi yma'n galluogi'r ymgeisydd llwyddiannus i ddatblygu'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i barhau â'u dyhead am yrfa ym maes cadwraeth natur.

Bydd yr Hyfforddai'n cael hyfforddiant a phrofiad yn y canlynol:

- Gwaith rheoli cynefinoedd ymarferol a phrofiad o weithio yn y sector cadwraeth
- Gosod datrysiadau naturiol yn eu lle ar gyfer bioamrywiaeth a lliniaru ac addasu i newid hinsawdd
- Arwain gwirfoddolwyr, tasgau a digwyddiadau, gan gynnwys iechyd a diogelwch, diogelu ac ati.

Yn ogystal, bydd diddordebau unigol yr ymgeisydd llwyddiannus yn galluogi profiad pellach yn y canlynol:

- Arolwg a monitro ecolegol
- Marchnata a chyfathrebu cadwraeth natur
- Addysg bywyd gwyllt a gwaith grwpiau cymunedol

Bydd yr Hyfforddai'n cefnogi Swyddogion Adfer Natur Ymddiriedolaeth Natur Gwent (YNG) yn eu swyddi o ddydd i ddydd ar draws ein cyfres o Warchodfeydd Natur yng Ngwent, ochr yn ochr â chefnogi staff eraill gyda'u gwaith amrywiol ar draws yr Ymddiriedolaeth. Bydd cyllideb ar gyfer hyfforddiant yn cael ei darparu a'r Offer Gwarchodol Personol angenrheidiol sydd ei angen i gyflawni ei rôl.

## Prif gyfrifoldebau

- Ymgymryd â phob agwedd ar reoli gwarchodfeydd yn ymarferol gan gefnogi staff a gwirfoddolwyr
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol yn y gwaith o dan arweiniad Staff YNG
- Cefnogi staff eraill YNG mewn gweithgareddau fel monitro bywyd gwyllt ac arolygu, digwyddiadau a gwaith addysg bywyd gwyllt
- Cynorthwyo gyda chynllunio a chyflwyno rhaglen waith gwirfoddolwyr yng ngwarchodfeydd natur YNG
- Ymgymryd â phrosiectau bach i gynorthwyo'r Tîm Adfer Natur a'r dystiolaeth maent yn ei defnyddio i gynnal rheolaeth addasol ar draws y Stad

- Cadw at ofynion Iechyd a Diogelwch ac arferion gwaith diogel a sicrhau amgylchedd diogel i staff, contractwyr, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr

**Y Swydd**
Mae'r rôl hon yn hyfforddeiaeth lawn amser 35 awr yr wythnos o 1af Medi 2026 tan 31ain Awst 2027. Mae angen lefel dda o ffitrwydd ar gyfer y swydd hon gan ei bod yn cynnwys gwaith awyr agored rheolaidd, mewn tywydd anodd yn aml. Efallai y bydd angen gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau hefyd yn achlysurol a bydd amser o'r gwaith yn cael ei roi am y gweithio hwnnw.

Bydd y rôl wedi'i lleoli yn ein Swyddfeydd Mamhilad ym Mhont-y-pŵl, ond bydd disgwyl i'r hyfforddai deithio ledled Gwent.

**MANYLEB Y PERSON**
Mae'r rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer y swydd yma wedi'u rhestru isod.

**(H – Hanfodol; D – Dymunol)**

**Profiad**
- Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr (D)
- Profiad o reoli tir yn ymarferol (D)
- Trwydded yrru lawn a chyfredol (H)
- Y gallu i ysgwyddo cyfrifoldeb personol am arferion gwaith diogel ac amgylchedd gwaith diogel (H)

**Sgiliau**
- Ymroddedig a brwdfrydig i gadwraeth natur ac ehangu gwybodaeth (H)
- Y gallu i ddelio â phroblemau a'u datrys (H)
- Gwybodaeth ymarferol am offer a chyfarpar (D)
- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol gydag ystod eang o bobl (D)

**Gwybodaeth a Chymwysterau**
- Deall TG – yn gyfarwydd â phrosesu geiriau, taenlenni a chronfeydd data (D)

**Rhinweddau Personol**
- Ethig gweithio'n galed ac yn gallu gwneud gwaith corfforol heriol (H)
- Agwedd gyfrifol gyda sgiliau trefnu a rheoli amser da, gan gynnwys diwydrwydd wrth ddilyn tasgau (H)
- Angerdd cryf i weithio ym maes cadwraeth natur fel gyrfa yn y dyfodol (H)
- Yn heini yn gorfforol a gyda'r gallu i ddelio â thirwedd anodd a gwaith awyr agored ym mhob tywydd, mewn lleoliadau anghysbell yn aml (H)
- Y gallu i gyfleu brwdfrydedd ac ysbrydoli gwirfoddolwyr ac ymwelwyr (D)
- Dyhead i gyfrannu at dîm bach sy'n perfformio'n dda (D)

Dylai'r ymgeiswyr allu dangos ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal a gallu gweithio y tu allan i oriau swyddfa yn achlysurol.